Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# Polisi Gwirfoddolwyr

| Dogfen | |
|---|---|
| **Rhif y fersiwn** | **F4** |
| **Awdur** | **Ellen Jones, Ansawdd Gwasanaeth** |
| **Dyddiad gweithredu** | **Mawrth 2016** |
| **Dyddiad adolygu** | **Bob dwy flynedd** |
| **Dyddiad yr adolygiad nesaf** | **Mehefin 2027** |

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Blwch SP 99
Pencadlys yr
Heddlu Llangynnwr
Caerfyrddin
SA31 2PF
Rhif ffôn: 01267 226 440
E-bost: [opcc@dyfed-powys.police.uk](mailto:opcc@dyfed-powys.police.uk)
Gwefan: [https://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/cy/](https://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/cy/)

| Fersiwn | Dyddiad | Awdur | Rheswm dros y newid |
|---|---|---|---|
| 1.0 | Mawrth 2016 | Hannah Hyde | |
| 2.0 | Chwefror 2020 | Caryl Bond | Polisi wedi'i adolygu – mae'r holl wybodaeth yn gyfredol |
| 3.0 | Tachwedd 2021 | Caryl Bond | Polisi wedi'i adolygu. Mwy o wybodaeth wedi'i chynnwys am y weithdrefn gwyno a chanllawiau COVID-19 |
| 3.1 | Medi 2023 | Tom Walters, Gweithiwr Achos Ansawdd Gwasanaeth | Polisi Gwrth-hiliaeth wedi'i ychwanegu ar gyfer yr Adroddiad Fframwaith Sicrhau Ansawdd |
| 4.0 | Mai 2024 | Ellen Jones, Gweithiwr Achos Ansawdd Gwasanaeth | Adolygu'r polisi, Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa, cwynion |
| 4.1 | Medi 2024 | Ellen Jones, Gweithiwr Achos Ansawdd Gwasanaeth | Gweithredu'r cynllun Llysgenhadon Ieuenctid a'r Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr |
| 4.2 | Medi 2024 | Tom Walters, Gweithiwr Achos Ansawdd Gwasanaeth | Ychwanegu defnydd ffonau symudol, safonau (y cod moeseg), cymorth a llesiant |
| 4.3 | Mehefin 2025 | Ellen Jones, Gweithiwr Achos Ansawdd Gwasanaeth | Adolygu'r polisi a newidiadau o ran treuliau |
| 4.4 | Medi 2025 | Hassim Ganiyu, Myfyriwr ar leoliad gwaith | Ychwanegu polisi cwynion gwirfoddolwyr o dan adran 17 |

## **Cynnwys**

## Cynnwys


1. Cyflwyniad ....................................................................................4
2. Crynodeb o Gynlluniau Gwirfoddoli CHTh ..........................................4
3. Rheoli'r cynlluniau ...........................................................................7
4. Cymhwysedd ....................................................................................7
5. Recriwtio a cheisiadau ......................................................................7
6. Fetio ...............................................................................................8
7. Hyfforddiant .....................................................................................8
8. Cyfnod prawf ac adolygiadau ..............................................................8
9. Rolau, cyfrifoldebau a safonau gwirfoddolwyr ......................................9

10. Treuliau ........................................................................................9
11. Yswiriant........................................................................................10
12. Iechyd a diogelwch..........................................................................11
13. Cyfrinachedd ...................................................................................11
14. Gwaredu dogfennaeth......................................................................11
15. Canllawiau cyhoeddusrwydd ............................................................11
16. Llesiant a chymorth.........................................................................12
17. Datrys gwahaniaethau / cwynion a chamymddwyn.............................12
18. Terfynu'r penodiad .........................................................................14
19. Cwynion yn erbyn yr heddlu ............................................................14
20. Gwrth-hiliaeth .................................................................................14

## Rhagair y Comisiynydd

*Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i chi gyd am wirfoddoli – Diolch. Gwerthfawrogir eich ymroddiad a'ch brwdfrydedd dros y gwaith yr ydych yn ei wneud, ac mae'n werthfawr i'm gwaith i fel Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys.*

*Er bod y rhan fwyaf o'r polisi hwn yn cyd-fynd â'r egwyddorion eang a fabwysiadwyd yn flaenorol o ran gwirfoddoli, mae un newid mawr i'r ffordd yr hoffwn ymdrin â gwirfoddoli: rwyf wedi dileu'r terfyn o ran cyfnod dal y swydd gan wirfoddolwyr. Rwy'n teimlo bod profiad ein gwirfoddolwyr sydd wedi gwasanaethu ers amser maith yn amhrisiadwy i'r cynlluniau rydych chi'n rhan ohonyn nhw.*

*Diolch eto,*



## 1. Cyflwyniad

Dyma bolisi cyffredinol sy'n cwmpasu saith cynllun gwirfoddoli Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh). Mae'n nodi hawliau gwirfoddolwyr ac egwyddorion cyffredinol gwirfoddoli ar gyfer CHTh.

Mae manylion mwy manwl am rolau penodol gwirfoddolwyr ar gael yn llawlyfrau'r cynllun, sydd ar wahân. Gellir cael mynediad i'r rhain drwy wefan CHTh, neu drwy gais i Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (SCHTh).

## 2. Crynodeb o Gynlluniau Gwirfoddoli CHTh

*Cynllun Ymweliadau Annibynnol â'r Ddalfa:*

- Mae ymwelwyr annibynnol â'r ddalfa yn ymweld â dalfeydd ar draws ardal Heddlu Dyfed-Powys.
- Maent yn cynnal gwiriad annibynnol ar lesiant carcharorion yn y ddalfa, a'r amodau y maent yn cael eu cadw ynddynt.
- Mae gwaith ymwelwyr annibynnol â'r ddalfa yn rhoi gwarchodaeth i garcharorion ac yn sicrhau tryloywder o ran prosesau cadw unigolion yn y ddalfa.
- Mae materion a godir gan ymwelwyr annibynnol â'r ddalfa yn cael eu hystyried gan arolygwyr heddlu, a darperir diweddariadau i CHTh.

*Y Cynllun Lles Anifeiliaid:*

- Mae ymwelwyr lles anifeiliaid yn ymweld â swyddogion cŵn a'u cŵn heddlu ar draws ardal Heddlu Dyfed-Powys.
- Maent yn cynnal gwiriad annibynnol ar lesiant cŵn heddlu, ac amodau eu llety a'u hyfforddiant, a sut y cânt eu cludo: rhaid ymdrin â nhw'n effeithiol, heb greulondeb, ac mewn dull moesegol a thryloyw.
- Mae materion a godir gan y gwirfoddolwyr yn cael eu hystyried gan arolygwyr yr heddlu, a darperir yr wybodaeth ddiweddaraf i CHTh.

*Y Panel Sicrhau Ansawdd:*

- Gofynnir i'r panel graffu ar ansawdd cyswllt yr heddlu â'r cyhoedd, mewn modd tryloyw ac annibynnol, ar ran y cymunedau yn ardal Heddlu Dyfed-Powys.
- Bydd y panel yn craffu ar feysydd cyswllt yr heddlu â'r cyhoedd, er enghraifft, achosion cwynion, achosion stopio a chwilio, defnyddio grym, achosion o droseddau casineb a sut mae'r heddlu'n ymdrin â galwadau i Ganolfan Gyfathrebu'r Heddlu, h.y. galwadau 101 a 999.
- Mae Heddlu Dyfed-Powys yn ystyried y materion a godir gan y panel, a darperir yr wybodaeth ddiweddaraf i CHTh. Gwneir gwelliannau i arferion busnes a gwasanaeth cwsmeriaid yn ôl yr angen.

*Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa:*

- Diben Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa yw sicrhau bod gweithdrefnau'r

heddlu ar gyfer cadw unigolion yn y ddalfa yn ardal Heddlu Dyfed-Powys yn gymesur, yn gyfreithlon ac yn angenrheidiol.

- Mae aelodaeth y panel craffu yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i wirfoddolwyr sydd eisoes yn aelodau, o blith:
    - ymwelwyr annibynnol â'r ddalfa
    - y Panel Sicrhau Ansawdd
- Bydd thema i bob cyfarfod, a bydd y pynciau yn cael eu dewis yn y cyfarfod blaenorol. Bydd y panel yn cyfarfod bob deufis, ac felly bydd chwe chyfarfod y flwyddyn.
- Bydd adroddiad o'r canfyddiadau yn cael ei lunio gan weithiwr achos ansawdd SCHTh, a'i rannu â'r cadeirydd er mwyn sicrhau ei gywirdeb. Bydd yr adroddiad yn cael ei rannu â phennaeth y ddalfa i'w ystyried, ac er mwyn iddo ymateb i unrhyw argymhellion a wneir. Bydd yr adroddiad yn cael ei rannu yn y Bwrdd Craffu Strategol ar Gadw yn y Ddalfa.

*Llysgenhadon Ieuenctid:*

- Mae ein cynllun Llysgenhadon Ieuenctid yn rhoi cyfleoedd i bobl ifanc ddweud eu dweud ar blismona a throseddu yn y cymunedau maen nhw'n byw ynddynt.
- Mae hefyd yn galluogi pobl ifanc i ddylanwadu ar benderfyniadau a'u herio, ac yn ein helpu ni i ddeall barn a phrofiadau pobl ifanc o droseddu a phlismona'n well fel y gallwn sicrhau ein bod yn diogelu plant a phobl ifanc yn llwyddiannus a hyrwyddo eu llesiant.
- Bydd ein cynllun Llysgenhadon Ieuenctid yn gwneud y canlynol:
    - Ein helpu i nodi beth yw blaenoriaethau pobl ifanc
    - Creu ymgyrchoedd cyffrous a fydd yn codi ymwybyddiaeth o flaenoriaethau pobl ifanc
    - Ymgynghori â phobl ifanc ar faterion plismona a throseddu yn lleol, a rhoi adborth i'r CHTh
    - Cynorthwyo'r CHTh gyda'i waith craffu drwy fynd i rai cyfarfodydd i herio penderfyniadau, cynnig argymhellion, a dylanwadu ar newid er budd pobl ifanc yn ein hardal.

*Y Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr:*

- Prif ddiben y fforwm yw i'r prosiect cydweithredol pwysig hwn gynorthwyo'r gwaith o ddarparu gwasanaeth rhagorol i ddioddefwyr.
- Drwy'r Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr, mae eich CHTh yn gweithio gyda phartneriaid cyfiawnder troseddol i sicrhau bod llais dioddefwyr yn dylanwadu ar waith craffu ar y ddarpariaeth gwasanaeth i ddioddefwyr.
- Mae'r fforwm yn agored i ddioddefwyr pob math o drosedd.
- Gall y fforwm ymwneud â'r canlynol:
    - cwblhau arolygon
    - rhoi adborth ar brosesau, polisïau neu ddogfennau penodol
    - cymryd rhan mewn trafodaeth grŵp
- Nid oes disgwyl i unigolion gymryd rhan ym mhob cyfle: nhw sy'n dewis pryd i gymryd rhan.

Mae rhagor o wybodaeth am y cynlluniau gwirfoddoli uchod ar gael ar wefan CHTh, neu ar gais i SCHTh.

## 3. Rheoli'r cynlluniau

Mae CHTh yn cydnabod hawl gwirfoddolwyr i gael cefnogaeth ddigonol yn eu rôl, a bydd yn sicrhau bod adnoddau addas ar gael i gynnal y cynlluniau gwirfoddoli yn effeithiol.

Rheolir y cynlluniau gwirfoddoli o fewn SCHTh gan y Tîm Sicrwydd a'r Cynghorydd Ymgysylltu.

Bydd gwirfoddolwyr yn cael manylion cyswllt wrth ymuno â'r cynllun gwirfoddoli, ac yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf pan fydd unrhyw newidiadau.

## 4. Cymhwysedd

Rhaid i wirfoddolwyr fodloni nifer o feini prawf i fod yn gymwys ar gyfer cynlluniau gwirfoddolwyr CHTh:

- Rhaid iddyn nhw fod dros 18 oed (ac eithrio ar gyfer Llysgenhadon Ieuenctid, sydd ar gyfer unigolion rhwng 14 a 25 oed);
- Rhaid iddyn nhw fyw, gweithio neu astudio o fewn ardal Heddlu Dyfed-Powys;
- Rhaid iddyn nhw fod wedi byw yn y DU am o leiaf dair blynedd cyn cyflwyno cais;
- Rhaid iddyn nhw fod yn annibynnol ar yr heddlu a'r system cyfiawnder troseddol, h.y. ni fydd SCHTh yn penodi swyddogion presennol yr heddlu, staff yr heddlu, aelodau sy'n gwasanaethu SCHTh ei hun, cwnstabliaid gwirfoddol, nac unrhyw un sydd â chysylltiad uniongyrchol â'r system cyfiawnder troseddol, fel cyfreithwyr neu swyddogion prawf.

Mae yna hefyd feini prawf cymhwysedd penodol i'r rôl ar gyfer pob un o'r cynlluniau. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn llawlyfrau'r cynllun.

## 5. Recriwtio a cheisiadau

Bydd y cyfleoedd gwirfoddoli hyn yn cael eu hyrwyddo'n eang i sicrhau eu bod yn hygyrch i bob aelod o'r gymuned. Croesewir ceisiadau gan unigolion o bob rhan o'r gymuned i adlewyrchu amrywiaeth o ran hil, anabledd, rhywedd a hunaniaeth o ran rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd a chred, oedran, a'r Gymraeg.

Mae CHTh wedi ymrwymo'n gadarn i gydraddoldeb ac amrywiaeth, a bydd unrhyw addasiadau rhesymol yn cael eu hystyried ym mhob agwedd ar ei waith. Mae gennym lawer i'w ddysgu ac i'w elwa o ddiwylliannau a safbwyntiau amrywiol. Mae CHTh wedi ymrwymo i ddatblygu a chynnal cynlluniau gwirfoddoli lle mae syniadau, galluoedd a chefndiroedd gwahanol yn cael eu meithrin a'u gwerthfawrogi.

Unwaith y daw cais i law, gwahoddir y gwirfoddolwr i gyfweliad anffurfiol gyda chynrychiolwyr CHTh. Gwneir penderfyniad terfynol gan y tîm cyf-weld, a fydd yn cael ei gyfleu'n ysgrifenedig i'r gwirfoddolwr.
Darperir adborth i geisiadau aflwyddiannus ar gais.

Gofynnwn yn garedig i bob gwirfoddolwr geisio ymrwymo am o leiaf flwyddyn ar y cynlluniau gan fod angen cliriad fetio a hyfforddiant ar bob gwirfoddolwr.

## 6. Fetio

Gofynnir i ymgeiswyr llwyddiannus gwblhau Holiadur Fetio Personél Nad yw'n Weithiwr yr Heddlu. Dim ond y rhai sy'n cael cliriad fetio a fydd yn cael gwahoddiad i ymuno â chynlluniau gwirfoddoli CHTh.

Rhoddir cliriad fetio am gyfnod hyd at dair blynedd. Ar ôl hynny, bydd Swyddog Fetio Heddlu Dyfed-Powys yn ailystyried y broses fetio. Bydd SCHTh yn monitro'r dyddiadau y mae'n rhaid adnewyddu'r archwiliadau ac yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod y cliriad fetio yn parhau i fod yn ddilys. Os bydd unrhyw broblemau'n codi, bydd y staff perthnasol o SCHTh yn rhoi cyngor ar y camau gweithredu cywir o ran dyletswyddau gwirfoddoli.

Fodd bynnag, gall newidiadau mewn amgylchiadau effeithio ar addasrwydd i gael cliriad fetio. Felly mae'n angenrheidiol rhoi gwybod am newidiadau mewn amgylchiadau cyn gynted â phosibl.

## 7. Hyfforddiant

Mae anghenion hyfforddiant yn amrywio o gynllun i gynllun, a darperir manylion yn llawlyfrau'r cynllun. Fodd bynnag, disgwylir y bydd pob gwirfoddolwr yn ymgymryd â diwrnod hyfforddiant cychwynnol cyn dechrau eu rolau, sy'n cynnwys hyfforddiant ar eu rôl benodol, iechyd a diogelwch, a diogelu data.

## 8. Cyfnod prawf ac adolygiadau

Ar ôl cwblhau'r hyfforddiant, bydd gofyn i wirfoddolwyr gwblhau cyfnod prawf o chwe mis. Yna bydd penodiadau llwyddiannus yn cael eu cadarnhau yn amodol ar gydymffurfio'n foddhaol â darpariaethau'r cynlluniau, a byddant yn cael eu gosod am dymor cychwynnol o dair blynedd.

Bydd penodiadau'n cael eu hadolygu wedi hynny, a gellir penodi gwirfoddolwyr am dymor pellach o dair blynedd. Bydd hyn yn parhau ar raglen dreigl, gydag adolygiadau'n digwydd bob tair blynedd.

Y prif ffactorau a fydd yn cael eu hystyried ym mhob adolygiad yw gallu a pharodrwydd parhaus gwirfoddolwyr i gyflawni eu rôl yn effeithiol, gan ddangos didueddrwydd a gwrthrychedd bob amser.

## 9. Rolau, cyfrifoldebau a safonau gwirfoddolwyr

Mae gwybodaeth fanwl am rolau gwirfoddol penodol i'w chael yn y cylch gorchwyl ar gyfer y cynllun.

Rhaid i wirfoddolwyr fod wedi ymrwymo i gyflawni eu dyletswyddau gwirfoddol. Deellir y bydd gan wirfoddolwyr ymrwymiadau allanol eraill, ac mae CHTh yn ymwybodol o hyn. Fodd bynnag, lle na fydd gwirfoddolwr yn ymrwymo'n ddigonol i'w gynllun, gofynnir am esboniad. Os nad oes rheswm da dros y diffyg ymrwymiad, rhoddir ystyriaeth o ran a ddylai'r unigolyn hwnnw barhau yn y rôl ai peidio.

Bydd angen i wirfoddolwyr roi gwybod i SCHTh am unrhyw faterion sy'n ymwneud â'u gallu eu hunain i fodloni gofynion y cynllun; er enghraifft, newidiadau mewn amgylchiadau personol, neu gyfnodau pan nad ydynt ar gael i gyflawni eu dyletswyddau.

Dylai gwirfoddolwyr hefyd roi gwybod i SCHTh os cânt eu harestio neu eu cyhuddo o drosedd, neu os ydynt yn destun ymchwiliad. Byddant yn cael eu hatal rhag ymgymryd â dyletswyddau gwirfoddoli pellach wrth iddynt aros am ganlyniad unrhyw achos.

Yn unol â'r Cod Moeseg:

| |
|---|
| *Byddwn yn defnyddio'r egwyddorion plismona moesegol i'n helpu i wneud ein penderfyniadau proffesiynol a myfyrio arnynt. Fel gweithwyr plismona proffesiynol, rydym yn ymrwymo i'r canlynol.*<br><br>***Dewrder** – gwneud penderfyniadau, eu cyfathrebu, a bod yn atebol amdanynt, a sefyll yn erbyn unrhyw beth a allai ddwyn anfri ar ein proffesiwn.*<br><br>***Parch ac empathi** – annog barn pobl eraill, gwrando arnynt, a'u deall, a cheisio cydnabod ac ymateb i'r heriau corfforol, meddyliol ac emosiynol y gallwn ni a phobl eraill eu hwynebu.*<br><br>***Gwasanaeth cyhoeddus** – gweithio er budd y cyhoedd, meithrin ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd, ac ymfalchïo mewn darparu gwasanaeth rhagorol i'r cyhoedd.* |

## 10. Treuliau

Telir treuliau teithio i bob gwirfoddolwr sy'n teithio am resymau busnes mewn cysylltiad â'u rôl wirfoddol. Dim ond prisiau trafnidiaeth gyhoeddus neu filltiroedd mewn car preifat ar y gyfradd benodedig gyfredol gan Cyllid a Thollau EF a delir (£0.45 y filltir). Lle cyflwynir hawliadau milltiredd, gofynnir i chi

ddarparu derbynneb TAW ddilys.

Ni roddir ad-daliad am ffioedd tacsi, ac eithrio mewn rhai amgylchiadau cyfiawn, e.e. gwirfoddolwyr y mae angen cludiant hygyrch penodol arnynt.

Mae gan wirfoddolwyr hefyd hawl i hawlio ad-daliad am bryd o fwyd (hyd at werth o £12.70) wrth ymgymryd â dyletswyddau am gyfnod di-dor o bedair awr neu ragor; lle nad oes lluniaeth wedi'i ddarparu. Mae hyn yn cynnwys amser teithio. Lle hawlir ad-daliad am bryd bwyd, rhaid i wirfoddolwyr ddarparu derbynneb TAW ddilys.

Os oes angen tocynnau trên ar wirfoddolwyr i fynd i gwrs / cynhadledd sy'n gysylltiedig â'u rôl, ac a gynhelir y tu allan i ardal Heddlu Dyfed-Powys, dylent gysylltu â SCHTh. Bydd SCHTh yn trefnu ac yn talu am eu tocynnau.

Meini prawf aros dros nos:

- Os oes angen aros dros nos wrth ymgymryd â hyfforddiant y tu allan i ardal Heddlu Dyfed-Powys, dylai gwirfoddolwyr gysylltu â SCHTh i drefnu hyn.
- Mae aelodau'n teithio cryn bellter er mwyn mynd i gyfarfodydd. Dim ond pan ystyrir bod angen gwneud hynny i gwblhau dyletswyddau y bydd treuliau dros nos yn daladwy, ac yn dilyn cymeradwyaeth ymlaen llaw gan SCHTh.

Rhaid cyflwyno pob cais am dreuliau ar y ffurflenni hawlio treuliau a ddarperir gan SCHTh. Wrth gwblhau'r hawliad treuliau, rhaid i wirfoddolwyr fod yn benodol gyda hawliadau milltiredd, h.y. i'r filltir agosaf. Dylid cyflwyno hawliadau treuliau i SCHTh o fewn chwe mis i'r gwariant.

Dylai gwirfoddolwyr sy'n cael budd-daliadau gwladol o unrhyw fath roi gwybod i'r Adran Gwaith a Phensiynau, neu awdurdod perthnasol arall, o'u rôl fel gwirfoddolwr i CHTh.

## 11. Yswiriant

Mae gan CHTh yr yswiriant atebolrwydd priodol ar gyfer gwirfoddolwyr, i'w diogelu wrth gyflawni eu dyletswyddau gwirfoddol. Nid yw hyn yn ymestyn i sicrwydd yswiriant modur.

Cynghorir gwirfoddolwyr sy'n defnyddio eu cerbydau preifat eu hunain wrth gyflawni eu rôl wirfoddol yn daer i wirio gyda'u hyswirwyr eu hunain eu bod wedi'u cynnwys at y diben hwn.

Ni fydd CHTh yn atebol am lefel annigonol o yswiriant modur unigolion. Bydd gofyn i wirfoddolwyr ddarparu tystiolaeth o yswiriant modur digonol adeg eu penodi, a bydd gofyn iddynt sicrhau ei fod yn gyfredol yn flynyddol.

## 12. Iechyd a diogelwch

Bydd gwirfoddolwyr yn cael cyngor iechyd a diogelwch sy'n berthnasol i'w rôl fel rhan o'u hyfforddiant.

Gofynnir i wirfoddolwyr roi gwybod i SCHTh am unrhyw newidiadau i'w hiechyd a allai effeithio ar eu gallu i ymgymryd â'u rôl wirfoddoli. Cynhelir asesiad risg ar gyfer y cynllun ymwelwyr annibynnol â'r ddalfa a'r cynllun lles anifeiliaid, sy'n manylu ar y risgiau posibl. Gofynnir i bob gwirfoddolwr ymgyfarwyddo â chynnwys yr asesiad risg perthnasol, a chydymffurfio â'r mesurau rheoli a nodir.

## 13. Cyfrinachedd

Yn ystod eu dyletswyddau, bydd gwirfoddolwyr yn cael gwybodaeth gyfrinachol am faterion plismona.

Bydd gwirfoddolwyr yn cael hyfforddiant ar ddiogelu data a chyfrinachedd. Gofynnir iddynt lofnodi cytundeb cyfrinachedd wrth ymuno â'r cynllun gwirfoddoli, a gofynnir iddynt lofnodi datganiad cyfrinachedd yn rheolaidd wrth ymgymryd â'u dyletswyddau gwirfoddoli.

Fel rhan o'u rolau, mae defnyddio offer electronig personol, h.y. ffonau symudol neu oriorau clyfar, wedi'i wahardd yn llym yn ystod gweithgaredd gwirfoddol.

## 14. Gwaredu dogfennaeth

Pan fydd gwirfoddolwr yn ymadael â chynllun, rhaid iddo sicrhau bod yr holl ddogfennaeth sy'n ymwneud â'i rôl yn cael ei gwaredu / ei dychwelyd yn briodol i SCHTh.

Mae mynediad at ddogfennaeth yn amrywio o gynllun i gynllun. Lle mae gwirfoddolwyr yn cyfarfod i graffu ar ddogfennau penodol, ni ddylid mynd â'r dogfennau hyn o'r cyfarfod nac oddi ar safle'r heddlu.

*Rhaid* dychwelyd unrhyw fathodynnau adnabod i SCHTh pan fydd gwirfoddolwr yn ymadael â chynllun.

## 15. Canllawiau cyhoeddusrwydd

Mae'n ddymunol bod cynlluniau gwirfoddoli CHTh yn cael eu hyrwyddo i'r cyhoedd. Os yw gwirfoddolwyr yn rhan o'r cyhoeddusrwydd hwn, rhaid iddynt gofio mai diben y cyhoeddusrwydd hwn yw hysbysu'r cyhoedd am y cynlluniau, ac nid tynnu sylw at unrhyw wybodaeth a gafwyd wrth gyflawni eu dyletswyddau.

Dylid cyfeirio unrhyw wahoddiad i siarad â'r wasg, neu grwpiau / sefydliadau lleol am y cynlluniau gwirfoddoli at SCHTh. Dylai gwirfoddolwyr gofio eu bod

yn atebol i CHTh, ac nid i'r wasg nac aelodau unigol o'r cyhoedd. Gofynnwn i bob gwirfoddolwr beidio â phostio ar unrhyw lwyfannau cyfryngau cymdeithasol o dan eu cylch gwaith fel gwirfoddolwr SCHTh oni bai fod hynny wedi'i gytuno ymlaen llaw gyda rheolwyr y cynllun.

## 16. Llesiant a chymorth

Os bydd aelodau'n cael eu cynnwys mewn digwyddiadau trawmatig drwy eu gwaith gyda'r heddlu, neu'n dioddef unrhyw effeithiau seicolegol gwael oherwydd eu rôl, gallant gael mynediad at y gwasanaethau cwnsela neu gymorth a ddarperir gan Raglen Cymorth i Weithwyr Heddlu Dyfed-Powys, sef VIVUP. Mae adnoddau VIVUP yn cynnwys llinell gymorth dros y ffôn, cyngor ar ddyled ac arian, llyfrau gwaith hunangymorth y gellir eu lawrlwytho, podlediadau a blogiau. Mae'r cymorth hwn ar gael ar gyfer iechyd meddwl a lles gwirfoddolwyr, neu gymorth a chefnogaeth gyda phwysau yn y gwaith neu gartref, ac y mae ar gael bob awr o'r dydd, 365 diwrnod y flwyddyn ar eu llinell gymorth am ddim.

Bydd manylion cyswllt ar gyfer VIVUP yn cael eu darparu gan reolwyr y cynllun.

## 17. Datrys gwahaniaethau / cwynion a chamymddwyn

### Egwyddorion

Mae SCHTh wedi ymrwymo i drin pob gwirfoddolwr yn deg, yn wrthrychol ac yn gyson. Ein nod yw datrys pryderon yn brydlon, yn dryloyw ac mewn ffordd sy'n diogelu buddiannau'r achwynydd a'r gwirfoddolwr. Bydd pob cwyn a honiad yn cael eu cymryd o ddifrif, eu trin yn gymesur, a'u cofnodi at ddibenion monitro.

Os gwneir cwyn neu honiad yn erbyn gwirfoddolwr, neu os oes rheswm i amau ei fod wedi torri unrhyw ran o God Ymddygiad ei gynlluniau, bydd SCHTh yn gofyn i'r gŵyn neu'r honiad gael ei gyflwyno'n ysgrifenedig, os nad yw hyn eisoes wedi'i wneud. Ni chymerir unrhyw gamau ffurfiol oni bai bod y gŵyn yn dod i law yn ysgrifenedig.

Os bydd gwirfoddolwr yn dymuno cyflwyno cwyn yn erbyn gweinyddwr y cynllun, dylai roi gwybod i Brif Weithredwr SCHTh.

### Ffynonellau cwynion

Gall cwynion neu bryderon ynghylch gwirfoddolwyr gael eu codi gan y canlynol:

- Aelodau o'r cyhoedd, gan gynnwys unigolion yn y ddalfa a dioddefwyr
- Gwirfoddolwyr eraill
- Swyddogion neu staff Heddlu Dyfed-Powys

- Staff SCHTh

### Cyswllt cychwynnol

Lle ystyrir bod problem yn fach, gellir ei datrys yn anffurfiol trwy roi cyngor, gyda chofnod yn cael ei roi ar ffeil y gwirfoddolwr.

Os yw cwyn neu honiad yn ddifrifol neu os bydd digwyddiadau dro ar ôl tro, bydd y mater yn cael ei gyfeirio at y Prif Weithredwr (neu’r rheolwr cynllun / arweinydd sicrwydd dirprwyedig). Bydd y gwirfoddolwr yn cael gwybod cyn gynted ag y bo’n ymarferol.

### Hawl gwirfoddolwyr i ymateb

Bydd y gwirfoddolwr yn cael gwybod yn ysgrifenedig am y gŵyn neu’r honiad, a rhoddir cyfle iddo ymateb naill ai’n ysgrifenedig neu ar lafar o fewn 10 diwrnod gwaith i’r hysbysiad.

Gellir gwahardd y gwirfoddolwr o’i ddyletswyddau yn ystod y cyfnod hwn lle mae difrifoldeb y mater yn gwarantu hynny, er mwyn diogelu uniondeb y cynllun.

### Ymchwiliad, penderfyniad a chanlyniad

Bydd SCHTh yn gwneud ymholiadau perthnasol i ganfod y ffeithiau. Yn dibynnu ar natur y gŵyn, gall hyn gynnwys cysylltu â’r canlynol:

- Yr achwynydd
- Cyd-wirfoddolwyr
- Swyddogion / staff heddlu perthnasol (e.e. arolygydd y ddalfa, arolygydd yr adran gŵn)
- Unrhyw unigolyn arall sydd â gwybodaeth berthnasol

Dylid darparu pob ymateb yn ysgrifenedig o fewn 10 diwrnod gwaith i’r cais. Bydd y Prif Weithredwr (neu’r rheolwr dirprwyedig) yn ystyried yr wybodaeth a gasglwyd ac yn cofnodi’r rhesymeg dros y penderfyniad. Mae canlyniadau posibl yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i’r canlynol):

- Dim gweithredu pellach
- Geiriau o gyngor ynghylch ymddygiad yn y dyfodol
- Ataliad dros dro nes bod hyfforddiant pellach wedi’i gwblhau
- Dileu o’r rota dros dro
- Terfynu’r penodiad a dileu o’r cynllun
- Adfer gyda neu heb amodau

Bydd y gwirfoddolwr yn cael gwybod yn ysgrifenedig am y penderfyniad a’r rhesymau cyn gynted ag y bo’n ymarferol.

### Apêl

Mae gan wirfoddolwyr yr hawl i apelio yn erbyn unrhyw benderfyniad ffurfiol o fewn 28 diwrnod gwaith i gyflwyno'r llythyr penderfyniad. Dylid cyflwyno apeliadau yn ysgrifenedig, gan nodi sail lawn yr apêl, i CHTh os gwnaeth y Prif Weithredwr y penderfyniad gwreiddiol, neu i'r Prif Weithredwr os ydyw wedi'i ddirprwyo i reolwr y cynllun. Gall yr adolygydd ofyn am ragor o wybodaeth, ac efallai y bydd yn cwrdd â'r gwirfoddolwr neu beidio.

Darperir canlyniad yr apêl yn ysgrifenedig cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Mae penderfyniad yr adolygydd yn derfynol. Os caiff yr apêl ei chadarnhau, caiff y gŵyn ei dileu o gofnod y gwirfoddolwr, a bydd adferiad yn dod i rym ar unwaith os digwyddodd ataliad dros dro neu derfyniad.

## 18. Terfynu'r penodiad

Er bod y rolau'n gwbl wirfoddol, mae gan CHTh yr hawl i derfynu penodiad unrhyw wirfoddolwr y teimlir nad yw ei ymddygiad o'r safon ddisgwyliedig.

Bydd gwirfoddolwyr yn llofnodi cod ymddygiad wrth ymuno â chynllun, a disgwylir iddynt gydymffurfio â'r safonau a nodir yn y ddogfen honno. Os bydd safon yr ymddygiad yn is na'r safon honno, bydd y CHTh yn ystyried a ddylai'r unigolyn hwnnw barhau yn y rôl.

Dylai gwirfoddolwyr sy'n dymuno terfynu eu penodiad roi hyn yn ysgrifenedig i'w gweinyddwr cynllun, gan roi rhybudd digonol lle bo'n bosibl.

## 19. Cwynion yn erbyn yr heddlu

Pan fydd gwirfoddolwr yn codi pryder gyda SCHTh ynghylch ymddygiad swyddog heddlu neu aelod o staff yr heddlu, wrth gyflawni ei rôl wirfoddoli, bydd gweinyddwr y cynllun yn codi'r mater gyda'r uwch-swyddog perthnasol o fewn yr heddlu.

Pan fydd gwirfoddolwr yn gwneud cwyn ffurfiol yn erbyn yr heddlu, a gofnodir fel cwyn, boed yn ei rôl fel gwirfoddolwr neu fel unigolyn preifat, rhaid hysbysu CHTh. Bydd y manylion llawn yn cael eu cyflwyno i'r Prif Weithredwr, a fydd yn gwneud y penderfyniad cychwynnol ynghylch a ddylid atal dyletswyddau'r gwirfoddolwr er budd diduedd rwydd.

## 20. Gwrth-hiliaeth

Nid oes lle i hiliaeth a gwahaniaethu o unrhyw fath yn ein cymdeithas, ac nid oes lle iddynt yn Heddlu Dyfed-Powys nac yn SCHTh. Mae gan bob un ohonom ddyletswydd bersonol a phroffesiynol i wybod ble mae anghydraddoldeb yn parhau, ac i'w atal os ydym yn ei weld. Rhaid inni fynd i'r afael â'r materion hyn

gyda'n gilydd, fel cydweithwyr ac fel dinasyddion, er mwyn gwneud cymdeithas yn decach ac i gefnogi ein gilydd. Mae gan gynlluniau gwirfoddolwyr SCHTh sefyllfa unigryw o ran sicrhau triniaeth deg a pharchus mewn maes plismona sy'n aml yn gudd ac sydd dan bwysau mawr.

Mae SCHTh wedi ymrwymo i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth gydraddoldeb berthnasol, gan gynnwys Deddf Cydraddoldeb 2010 i greu amgylcheddau lle:

- ni oddefir gwahaniaethu, aflonyddu na bwlio anghyfreithlon
- mae pobl yn cael eu trin yn deg, ac yn ôl eu hanghenion
- mae mynediad cyfartal i bob cyfle

Mae SCHTh wedi ymrwymo i greu diwylliant lle mae iaith ac agweddau gwahaniaethol yn cael eu herio'n briodol, a chamau'n cael eu cymryd lle bo angen yn ein holl waith. Bydd hyn yn cyfrannu at adolygiad parhaus ein cynllun gwirfoddoli, i gael cynrychiolaeth o amrywiaeth ethnig yn ein gwirfoddolwyr, a gweithio tuag at gynllun sy'n gynrychioliadol o'r gymuned leol. Yn ogystal, mae SCHTh wedi ymrwymo i'r gwaith parhaus tuag at fonitro anghymesuredd triniaeth yn effeithiol yn nalfa'r heddlu, i hyfforddi gwirfoddolwyr mewn gwrth-hiliaeth a thriniaeth deg i garcharorion, i ymgorffori ein hymrwymiad a'n dealltwriaeth i sefydliadau gwrth-hiliaeth, ac i barhau i addysgu ein hunain am y rhwystrau a'r heriau sy'n wynebu'r rhai o gymunedau lleiafrifoedd ethnig.